

# Ordinhad 6

## Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

**Y Corff Cymeradwyo:** y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo:** 06 Gorffennaf 2018

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Geraint Pugh, [gop2@aber.ac.uk](mailto:gop2@aber.ac.uk) / 01970 62 2114

**Statws y polisi:** Diwygiedig

**Fersiwn:** 2.0

**Dyddiad adolygu:** Gorffennaf 2020

## ORDINHAD 6

### Y CYNGOR: CADEIRYDD Y CYNGOR A DIRPRWY GADEIRYDD Y CYNGOR

#### 1. Ethol Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

1. Bydd y Cyngor yn penodi Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor drwy weithredu yn unol â'r mwyafrif o holl aelodau'r Cyngor, a'r aelodau annibynnol fydd y mwyafrif o'r aelodau hynny.
2. Os bydd swydd Cadeirydd y Cyngor yn wag, bydd y Cyngor yn penderfynu'r drefn i'w dilyn i lenwi'r swyddogaeth honno, sef:
  1. cyfarwyddo'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio – i'w gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor yn lle Cadeirydd y Cyngor sy'n dod i ddiwedd ei dymor – i gynnal proses recriwtio allanol addas i ddod o hyd naill ai:
    - a. i aelod annibynnol newydd i'w benodi i'r Cyngor, ar yr amod y byddai'r unigolyn dan sylw yn cael ei ethol neu ei hethol yn Gadeirydd y Cyngor; neu
    - b. i unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Cyngor fel aelod annibynnol ac sydd yn dymuno gwasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor; neu
  2. cynnull Pwyllgor Dewis i gynnal proses recriwtio allanol addas i benodi Canghellor os yw'r swyddogaeth honno'n wag neu os bydd yn dod yn wag cyn hir, ar yr amod y byddai'r unigolyn dan sylw hefyd yn cael ei ethol neu ei hethol yn Gadeirydd y Cyngor; neu
  3. gwahodd enwebiadau gyda'r bwriad o ethol unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu fel aelod annibynnol ar y Cyngor, am dymor yn swydd y Cadeirydd na fydd yn estyn y tu hwnt i ddyddiad terfyn y penodiad gwreiddiol i'r Cyngor.
3. Os bydd swydd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn wag, bydd y Cyngor yn gwahodd enwebiadau gyda'r bwriad o ethol unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu fel aelod annibynnol ar y Cyngor.

#### 2. Tymor y Swydd

1. Tymor swydd Cadeirydd y Cyngor fydd tair blynedd, gyda'r posibilrwydd o ail-benodi am dymor arall o dair blynedd. Fodd bynnag, os yw'r unigolyn a etholir eisoes yn aelod o'r Cyngor, bydd darpariaethau Ordinhad 08 ynghylch hyd tymor gwasanaeth aelodau annibynnol yn berthnasol.
2. Ni fydd tymor swydd y Dirprwy Gadeirydd yn estyn y tu hwnt i ddyddiad terfyn y penodiad gwreiddiol i'r Cyngor.

#### 3. Swyddogaethau Cadeirydd y Cyngor

Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflawni'r swyddogaethau hynny a bennir gan y Cyngor, a fydd yn cynnwys:

1. Arwain y Cyngor a chadeirio cyfarfodydd y Cyngor;
2. Bod yn Gadeirydd *ex-officio* ar bwyllgorau dewis i benodi'r Canghellor, y Dirprwy Gangellorion

a'r Is-Ganghellor;

3. Cyflwyno anerchiad blynyddol i'r Llys;
4. Penodi cynrychiolwyr y Cyngor i baneli penodi, disgyblu a thribiwnlys;
5. Bod yn rheolwr llinell ar yr Is-Ganghellor ar ran y Cyngor, gan ymdrin â materion adnoddau dynol sy'n berthnasol i'r unigolyn hwnnw; ac
6. Ymgymryd â gweithgareddau ar ran y Brifysgol a mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a chyrff eraill o'r fath.

#### 4. Swyddogaethau Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

Bydd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn cyflawni'r swyddogaethau hynny a bennir gan y Cyngor, a fydd yn cynnwys:

1. ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau a ddirprwyir gan Gadeirydd y Cyngor;
2. bod yn Gadeirydd *ex-officio* ar y Pwyllgor Taliadau; a
3. bod yn *Uwch Aelod Annibynnol*<sup>1</sup> y Cyngor.

#### 5. Ymddiswyddo a symud o'r swydd

1. Gall Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor ymddiswyddo drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Glerc y Cyngor.
2. Os digwydd ymddiswyddiad o'r fath, gall yr unigolyn dan sylw barhau fel Canghellor neu fel neu aelod annibynnol o'r Cyngor. Serch hynny, mewn achosion o'r fath, ni fydd tymor newydd yn dechrau i'r swydd honno.
3. Os bydd mwyafrif o blith y Canghellor, y Dirprwy Gangellorion a'r Is-Ganghellor yn tystio eu bod o'r farn bod Cadeirydd y Cyngor neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor:
  1. wedi bod yn analluog i raddau helaeth i gyflawni'r swydd yn y 12 mis blaenorol; neu
  2. wedi methu â chyflawni ei swydd, eu wedi'i hesgeuluso, i raddau helaeth; neu
  3. wedi ymddwyn mewn modd nad yw'n addas i Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor

yna, ar ôl rhoi cyfle i'r unigolyn dan sylw i gyflwyno ei achos, gellir gwneud argymhelliad i'r Cyngor i ddiswyddo Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor. Diswyddir Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor os bydd cynnig i wneud hynny yn cael ei basio gan fwyafrif o holl aelodau'r Cyngor.

---

<sup>1</sup> Swyddogaeth sy'n cynnwys bod yn glust barod i Gadeirydd y Cyngor, a gwasanaethu fel canolwr i aelodau eraill y Cyngor lle bo angen.